Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **10 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Y ddeddfwriaeth Ewropeaidd sydd i'w dirymu

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 ar hawliau amrywogaethau planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1768/95 sy'n gweithredu rheolau ynghylch yr esemptiad amaethyddol y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 14(3) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 ar hawliau amrywogaethau planhigion y Gymuned

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2506/95 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2100/94 ar hawliau amrywogaethau planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1238/95 sy'n sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 o ran ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2605/98 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1768/95 sy'n gweithredu rheolau ynghylch yr esemptiad amaethyddol y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 14(3) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 ar Hawliau Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 329/2000 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 sy'n sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 o ran y ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 569/2003 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 sy'n sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 o ran y ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 807/2003 sy'n addasu i Benderfyniad 1999/468/EC y darpariaethau sy'n ymwneud â phwyllgorau sy'n cynorthwyo'r Comisiwn wrth arfer ei bwerau gweithredu a osodwyd yn offerynnau'r Cyngor a fabwysiadwyd yn unol â'r weithdrefn ymgynghori (unfrydedd)

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1650/2003 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2100/94 ar hawliau amrywogaethau planhigion y Gymuned

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 873/2004 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2100/94 ar hawliau amrywogaethau planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2005 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 sy'n sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 o ran y ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2039/2005 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 sy'n sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 o ran y ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 15/2008 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2100/94 o ran yr hawlogaeth i gyflwyno cais am hawliau amrywogaethau planhigion y Gymuned

Rheoliad y Comisiwn (EC) 637/2009 sy'n sefydlu rheolau gweithredu o ran addasrwydd enwau amrywogaethau planhigion amaethyddol ac amrywogaethau llysiau

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 874/2009 sy'n sefydlu rheolau gweithredu o ran cymhwyso Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2100/94 ynghylch trafodion gerbron Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 510/2012 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 o ran y ffi am gais sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Comisiwn

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 623/2013 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 o ran lefel y ffi flynyddol sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Comisiwn

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EC) Rhif 763/2013 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 637/2009 o ran dosbarthiad rhywogaethau planhigion penodol at ddibenion asesu addasrwydd enwau amrywogaethau

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1294/2014 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 o ran lefel y ffi am gais a'r ffi archwilio sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2015/2206 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 o ran y ffioedd sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn Rhif 2016/1448 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 874/2009 sy'n sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2100/94 o ran trafodion gerbron Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/2141 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1238/95 o ran lefel y ffi flynyddol a'r ffioedd archwilio sy'n daladwy i Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned. Mae'r rheoliadau gweithredu a ganlyn yn cael eu dirymu:

- Rheoliad Gweithredu (EU) 2017/1454 a oedd yn pennu'r fformat technegol ar gyfer cyflwyno adroddiadau gan Aelod Wladwriaethau.
- Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/145 a fabwysiadodd fformat y ddogfen dystiolaeth ar gyfer yr drwydded a ddyroddir gan awdurdodau cymwys Aelod Wladwriaethau.
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2018/968 a oedd yn pennu'r fethodoleg ar gyfer asesiadau risg o ran rhywogaethau estron ymledol.

<u>Deddfwriaeth ddomestig</u>

Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997

Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hadau a Arbedir ar Fferm) (Gwybodaeth Benodedig) 1998

Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion 1998

Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hysbysiadau Gwybodaeth) 1998

Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006

Rheoliadau Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion (Estyn Swyddogaethau) 1995 (yn cael eu dirymu)

Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hysbysiadau Gwybodaeth) (Eu Hestyn i Hawliau Amrywogaethau Planhigion y Gymuned Ewropeaidd) 1998 (yn cael eu dirymu)

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Rheolwr Hawliau Amrywogaethau Planhigion, sef swyddog a sefydlwyd gan Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997 yn bennaeth ar y Swyddfa Hawliau Rhywogaethau Planhigion. Mae'r Rheolwr yn gweithredu o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon ar y cyd, ac fe'i penodir ganddynt hwy hefyd.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig yn golygu bod paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Nid yw'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn golygu newid o ran polisi. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i sicrhau y gall diwydiant barhau i weithredu'n

effeithlon pe bai'r DU yn ymadael â'r UE o dan sefyllfa "dim cytundeb", er enghraifft, drwy ddargadw rheolau presennol yr UE sy'n caniatáu i drydydd gwledydd cyfatebol gadw eu statws yn y DU o ran hawliau eiddo deallusol. Mae'r offeryn yn cywiro diffygion sy'n codi o ganlyniad i ymadael â'r UE er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n effeithiol. Er enghraifft, mae'n dileu cyfeiriadau at Gatalog Cyffredin yr UE oherwydd dim ond ar Restr Genedlaethol y DU y bydd angen rhestru amrywogaethau planhigion ar ôl Ymadael â'r UE.

Mae'r Offerynnau Statudol a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instrumentshttps://www.parliament.uk/about/how/laws/secondary-legislation/statutory-instruments-relating-to-brexit/

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran Cymru, ac ar ran Cymru, am resymau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.